**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

—

**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

24 Tachwedd 2023

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gweithgaredd Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor)

Annwyl Rebecca,

Ar 12 Medi 2023, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor) Economaidd a chyflwyno adroddiad arno.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 24 Tachwedd 2012.

Yn anffodus, nid yw'r amserlenni hyn wedi ein galluogi i gynnal gwaith craffu manwl ond rydym yn croesawu eich cyflymder wrth ymateb i'n hymholiadau ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Rydym yn nodi barn Llywodraeth Cymru ac yn cytuno â hi nad oes angen cydsyniad ar gyfer cymalau 12 a 13. Mae hyn oherwydd bod y ddau gymal yn berthnasol i bensiynau gweithwyr llywodraeth leol, sy'n fater a gedwir yn ôl o dan baragraff 134 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac nid yw'r darpariaethau yn rhoi sylw i faterion datganoledig.

Nodwn hefyd o'ch ymateb i ni mai nifer gyfyngedig o bensiynau galwedigaethol sydd wedi'u cynnwys yn yr esemptiad i'r mater a gedwir yn ôl ym mharagraff 134 (e.e. pensiynau ar gyfer aelodau awdurdodau lleol) ond nid yw'r rhain yn berthnasol i gymalau 12 neu 13. At hynny, mae cymal 13(3) yn diwygio offeryn sydd ond yn gymwys mewn perthynas â Gogledd Iwerddon, sy'n fater a fyddai y tu allan i gymhwysedd y Senedd.

Rydym yn croesawu eich eglurder ynghylch y rhyngweithio rhwng cymal 15 o'r Bil ac adran 115 o'r Bil Caffael a nodwn fod eich eglurhadau yn foddhaol.

Nid oes gennym unrhyw sylwadau pellach ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ac, ar yr achlysur hwn, ni fyddwn yn cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Fodd bynnag, nodwch fod Adam Price AS am gofnodi ei farn ei fod yn gwrthwynebu'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor).

Yn gywir,

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus